Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn

## Cylch Meithrin Tŷ'r Cymry
## Y Rhath
## Caerdydd
## CF24 3AJ

## Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Jonathan Cooper | Arolygydd Cofnodol |

## Canlyniad y monitro

Bernir bod Cylch Meithrin Tŷ’r Cymry wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mehefin 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â’r lleoliad ymhen rhyw dri mis i arolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

**Argymhelliad 1: Datblygu gweithdrefnau asesu sy’n nodi datblygiad medrau’r plant yn glir ac yn amlygu’r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.**

Cynnydd cyfyngedig o ran mynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r lleoliad wedi cael cymorth ac arweiniad sylweddol gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol ar y broses asesu a sut i amlygu’r camau nesaf yn natblygiad pob plentyn. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o effaith ar weithdrefnau asesu’r lleoliad, a bu cynnydd cyfyngedig ers yr arolygiad craidd.

Yn dilyn hyfforddiant priodol ar broffil y Cyfnod Sylfaen, mae’r lleoliad yn dechrau defnyddio hyn i asesu medrau disgyblion pan fyddant yn dechrau yn y cylch. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn o sut i asesu plant yn gywir trwy ddefnyddio’r proffil. O ganlyniad, mae asesiadau yn aml yn rhy hael ac nid ydynt yn rhoi asesiad cywir o allu gwaelodlin plentyn. Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd cyfyngedig i ymarferwyr ailedrych ar yr asesiadau hyn i fesur cynnydd plentyn.

Mae pob ymarferwr yn y lleoliad yn cynnal arsylwadau o blant. Mae eu nodiadau yn dechrau cynnwys ffocws cliriach ar amlygu medrau plant. Fodd bynnag, mae’r broses hon yn anghyson ac ni chaiff ei defnyddio’n ddigon da i nodi’r camau nesaf yn nysgu’r plant. Maent yn dechrau defnyddio’r wybodaeth o arsylwadau yn briodol i gwblhau proffiliau plant unigol sy’n cynnwys rhai lluniau wedi’u hanodi yn disgrifio cyflawniadau plant. Fodd bynnag, nid yw’r proffiliau hyn yn rhoi arwydd clir o gynnydd plentyn nac yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o gryfderau plant.

Nid yw’r lleoliad yn defnyddio asesu yn ddigon da i lywio cynllunio er mwyn atgyfnerthu medrau a symud plant yn eu blaenau.

**Argymhelliad 2: Cynllunio cyfleoedd dysgu sy’n cyfateb yn dda â gallu’r plant a’u cyrhaeddiad blaenorol ac i ddarparu’r plant â her ddigonol.**

Cynnydd cyfyngedig o ran mynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r lleoliad wedi datblygu ei weithdrefnau cynllunio yn briodol gyda chymorth gan yr athro ymgynghorol. Mae’r holl ymarferwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio ystod o brofiadau ysgogol ar gyfer plant. Mae’r cynllun tymhorol yn cynnwys

diddordebau penodol y plant ac unrhyw ddigwyddiadau arbennig sy'n digwydd yn ystod y tymor, yn ogystal â rhai medrau penodol i'w datblygu ar draws gweithgareddau. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r diffyg trylwyredd mewn asesu, nid yw'r rhain bob amser yn gweddu'n ddigon da i gyrhaeddiad blaenorol plant. Nid yw'r cynllunio yn dangos o hyd sut caiff gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau plant eu datblygu'n systematig.

Yn ddiweddar iawn, mae ymarferwyr wedi dechrau defnyddio'r fformat cynllunio tymor byr yn fwy cyson i gynllunio gweithgareddau er mwyn datblygu medrau plant. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'n ddigon clir pa ddarpariaeth sy'n barhaus, ac yn fanylach, na'r tasgau ffocws ar gyfer pob sesiwn. Nid yw ychwaith yn amlygu'r cyfrifoldebau sydd gan aelodau unigol o staff am bob gweithgaredd. Ceir rhai enghreifftiau o'r modd y mae ymarferwyr yn addasu gweithgareddau sy'n briodol ar gyfer anghenion pob un o'r plant. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson ac nid yw'n rhoi digon o her i bob un o'r plant. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn arfarnu gweithgareddau'n rheolaidd, er nad yw'r arfarniadau hyn yn canolbwyntio'n ddigon da ar asesu medrau plant yn ystod gweithgareddau. O ganlyniad, nid yw cynllunio'n cael effaith ddigon cryf ar ddatblygu medrau plant.

**Argymhelliad 3: Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant**

Cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad wedi bod yn rhagweithiol yn codi arian i wella darpariaeth yr offer TGCh, er enghraifft prynu llechen electronig a dyfeisiau recordio digidol. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau plant. Gall llawer o blant reoli car â rheolydd o bell a rhoi cyfarwyddiadau priodol ar gyfer tegan rhaglenadwy i wneud iddo symud.

Mae ymarferwyr yn dechrau cynllunio prosiectau buddiol sy'n galluogi plant i ddatblygu eu medrau'n briodol mewn ystod o gyd-destunau. Er enghraifft, mae mwyafrif y plant yn defnyddio'r llechi electronig yn briodol i dynnu ffotograffau a rhoi ymyl o gwmpas y llun gyda chymorth. Fodd bynnag, er bod rhai plant yn defnyddio adnoddau TGCh yn hyderus, nid yw ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd digonol iddynt ddefnyddio'r adnoddau yn rheolaidd i ddatblygu eu medrau yn effeithiol.

**Argymhelliad 4: Adolygu`r trefniadau ar gyfer amser byrbryd**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad wedi datblygu amrywiaeth o atebion buddiol ar gyfer trefnu amser byrbryd, yn dibynnu ar nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliad yn ystod y sesiwn. Er enghraifft, os bydd nifer fawr yn bresennol mewn sesiwn, mae ymarferwyr yn trefnu'r plant mewn grwpiau yn briodol fel nad ydynt yn eistedd o gwmpas am gyfnodau hir. Mae hyn yn sicrhau bod amser byrbryd yn weithgarwch tawelach a mwy effeithiol ar gyfer plant a staff. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r amser hwn i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol plant a'u cynnwys yn llwyddiannus wrth baratoi'r ffrwythau. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio'r cyfle hwn yn ddigon da i ddatblygu medrau Cymraeg llafar plant.

**Argymhelliad 5: Creu cynllun datblygu sy'n nodi sut i fynd i afael â gwelliannau**

Cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Yn ddiweddar iawn, mae'r lleoliad wedi creu cynllun datblygu sy'n dangos sut maent yn bwriadu gwneud gwelliannau yn erbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion. Nid yw'r cynllun yn cynnwys digon o fanylion ac nid yw'n amlinellu'n ddigon clir y camau gweithredu angenrheidiol i ymateb i'r argymhellion. Nid yw'r cynllun yn cynnwys graddfeydd amser clir na meini prawf llwyddiant penodol a mesuradwy i alluogi staff i arfarnu effaith unrhyw gamau gweithredu yn effeithiol. Nid yw'r cynllun yn canolbwyntio ar effaith y camau gweithredu hyn ar y deilliannau ar gyfer plant yn y lleoliad. O ganlyniad, nid yw'r cynllun datblygu yn offeryn effeithiol i alluogi'r lleoliad i gynllunio ar gyfer gwella ac nid yw wedi galluogi'r lleoliad i wneud cynnydd digonol yn erbyn argymhellion yr arolygiad craidd.

**Argymhellion**

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r lleoliad barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae wedi'i wneud eisoes, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.